**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MB/CS/3772/13

Arglwydd Dafydd Elis-Thomas, AC
Cadeirydd – Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

13 Medi 2013

Annwyl Dafydd

**Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd**
**Cynlluniau Datblygu Lleol – Rhagolygon Poblogaeth ac Aelwydydd**

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Awst ynghylch argymhellion Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd ar gyfer defnyddio rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).

Da yw deall eich bod yn cytuno ei bod hi'n bosibl i awdurdodau cynllunio lleol (ACLl) Cymru lunio eu rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd eu hunain. Mae'r ffaith eich bod chi fel Pwyllgor yn cymeradwyo hyn yn dilysu'r polisi cyfredol sydd ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) a bod Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gallu gwyro oddi wrth ein rhagolygon ar boblogaeth ac aelwydydd diweddaraf ni, cyn belled â bod hygrededd i'w tystiolaeth a bod yr wybodaeth yn gadarn. I helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol i drafod y gofyn am dai yn eu Cynllun Datblygu Lleol, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu ar gyfer pob awdurdod lleol Cymru y model a'r data fu'n sail i'r rhagolygon diweddaraf.

O ran y ddau argymhelliad a nodwch yn eich llythyr, mae'r ddau yn gysylltiedig â'r ffordd yr ymdrinnir â phroblemau cynllunio trawsffiniol trwy'r Bil Diwygio Cynllunio arfaethedig (Argymhelliad 1) ac amrywiadau posibl i'r ffordd y mae rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd (Argymhelliad 2) yn cael eu hystyried.

O ran Argymhelliad 1, bydd dau bapur yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach eleni – y Papur Ymgynghori a'r Bil Diwygio Drafft ar gyfer Cynllunio. Mae llawer o dystiolaeth yn sylfaen i'r ddau bapur yn ogystal â thystiolaeth o Adroddiad y Grŵp Cynghori Annibynnol (IAG). Yn wir, fe nodir yn adroddiad IAG bod angen trefn ehangach na'r Cynllun Datblygu Lleol i ymdrin â materion yn ymwneud â thrawsffinio. Er enghraifft, awgrymir bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn nodi'r ddarpariaeth tai yn unigol ac ar y cyd. Bydd y mater hwn ymhlith nifer o faterion fydd yn cael sylw yn y Bil drafft a'r papur ymgynghori. Tuag at ddiwedd 2014, byddaf yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar sut y byddwn yn ymdrin â'r problemau hyn, fel y nodwch yn eich llythyr.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Yn ail, mae Argymhelliad 2 yn codi cwestiynau nad ydynt yn ymwneud â'm portffolio i.  Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid sy'n gyfrifol am gyhoeddi rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer Cymru.  Mae 15 cyfarfod cyhoeddus wedi cael eu cynnal ar CDLl ac roedd cryn drafod ac archwilio ar y cwestiynau am elfennau'r model ar gyfer rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd; roedd hyn yn adlewyrchu'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r pwyllgor.  Mae swyddogion o'r Is-adran Gynllunio ac ystadegwyr Llywodraeth Cymru sy'n cyhoeddi rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd ar gyfer Cymru yn llwyr ymwybodol o'r problemau hyn, yn enwedig amserau'r setiau data penodol a ddefnyddir yn y fethodoleg.

Cyhoeddwyd Rhagolygon Poblogaeth ar gyfer Cymru (a sail 2011) yr awdurdodau lleol ar 23 Gorffennaf 2013.  Yn dilyn ystyriaeth gan weithgor technegol, maen nhw wedi'u seilio ar ddata ynghylch genedigaethau, marwolaethau a mewnfudiadau yn y cyfnod 5 mlynedd hyd at ganol 2011.  Disgwylir cyhoeddi rhagolygon pellach (wedi'u seilio ar 2011) ddiwedd mis Medi.  Bydd y rhagolygon yn cynnwys amrywiolyn ar dueddiadau amser hirach ar gyfer mewnfudo.

Bydd grŵp technegol, sy'n cynnwys dwy set o swyddogion ac arbenigwyr o'r Awdurdodau Cynllunio Lleol yn parhau i ystyried y ffordd ddoethaf yn ystadegol o symud ymlaen yn y dyfodol.  Mae'n hanfodol bod ystadegau unrhyw gynigion yn gadarn a byddaf, fel y nodwch yn eich llythyr, wedi adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar ganlyniad y dadansoddiad technegol hwn erbyn diwedd 2014.



**Carl Sargeant AC**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio